



Ein Cynllun Strategol draft




Byddwn yn sicrhau bod sylfeini cymdeithas fwy cyfartal a sy'n parchu hawliau'n fwy yn eu lle (**Nod Strategol 1**): deddfau a mecanweithiau atebolrwydd cryf i rymuso pobl ym Mhrydain Fawr; data sy'n dangos sut mae pobl yn ymdopi yn ymarferol; cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau; a rheolau sy'n sicrhau bod preifatrwydd a rhyddid i lefaru - sydd mor sylfaenol i ddemocratiaeth iach – yn cael eu diogelu yn yr oes ddigidol.



Byddwn yn sicrhau nad yw cyfleoedd bywyd pobl yn cael eu dal yn ôl gan rwystrau yn eu ffordd (**Nod Strategol 2**): p'un a yw'r rhain yn rhwystrau ffisegol sydd weithiau'n rhwystro pobl anabl rhag cael gafael ar gludiant neu adeiladau, gan eu hatal rhag mynd i'r gwaith neu ymgysylltu â'r gymuned; neu'r rheolau sy'n atal grwpiau difreintiedig rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd, addysg neu'r math iawn o dai; neu ai'r ffordd y trefnir y gweithle, gan atal menywod neu leiafrifoedd ethnig rhag dod o hyd i'r cyfleoedd maent yn haeddu i ffynnu yn eu gyrfaedd.



Yn ogystal â cheisio trawsnewid cyfleoedd bywyd pobl, byddwn yn cryfhau amddiffyniadau ar gyfer y rhai hynny sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed (**Nod Strategol 3**): y rhai hynny sy'n byw mewn sefydliadau sy'n dioddeftriniaeth greulon, a menywod sy'n dal i wynebu trais ac aflonyddu hyd yn oed yn ystod blwyddyn ganmlwyddiant ennill y bleidlais i fenywod.



Ein pwrpas

Sefyll dros ryddid, tosturi a chyfiawnder yn ystod amseroedd sy'n newid



Nod Strategol 1

Hyrwyddo'r amgylchiadau i gael Prydain fwy cyfartal a sy'n parchu hawliau.

Nodau Blaenoriaethol

1. Mae pobl yn gallu ceisio iawndal yn well pan fyddant yn cael cam ac mae pobl yn cael treial teg yn y system gyfiawnder troseddol.
2. Mae ffyrdd o fynd i'r afael â rhagfarn yn cael eu deall yn well ac mae cysylltiadau da yn cael eu hyrwyddo, yn arbennig trwy'r system addysg.
3. Mae technolegau a gwasanaethau digidol newydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.



Nod Strategol 2

Dileu'r rhwystrau i gyfle, fel bod cyfleoedd bywyd pobl yn cael eu trawsnewid.

Nodau Blaenoriaethol

4. Mae cludiant cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig yn hygyrch i bobl anabl a phobl hŷn er mwyn cefnogi eu cynhwysiant economaidd a chymdeithasol.
5. Mae mynediad at wasanaethau cyhoeddus hanfodol yn cael ei wella ar gyfer y grwpiau mwyaf difreintiedig.
6. Mae gan bobl ym Mhrydain fynediad cyfartal i'r farchnad lafur a maent yn cael eu trin yn deg yn y gwaith.
7. Mae'r system nawdd cymdeithasol yn deg ac yn gweithredu heb wahaniaethu.




Nod Strategol 3

Amddiffyn hawliau pobl yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed.

Nodau Blaenoriaethol

8. Rheolau gwell yn llywodraethu mynediad i'r ddalfa ac amgylchiadau mewn sefydliadau.
9. Mae cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a merched yn cydymffurfio â safonau cydraddoldeb a hawliau dynol.



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission